CYNLLUN STRATEGOL COLEG PENYBONT

BRIDGEND COLLEGE STRATEGIC PLAN

2014-2019

Bridgend College
Coleg Penybont

RHAGAIR

Mae gennym ddisgwyliadau uchel yng Ngholeg Penybont. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2013-14, rydym wedi gwrando ar gannoedd o staff a dysgwyr ac mae ganddynt oll rywbeth yn gyffredin: maent am i Goleg Penybont i fod yn sefydliad rhagorol.

Mae'r bobl ryfeddol sy'n gweithio yma yn hynod angerddol am gyflawni llwyddiant i bawb yn y sefydliad. Yn awr, mae angen i ni adeiladu ar y sylfeini cadarn, ac mae'r Cynllun Strategol hwn yn amlinellu ein huchelgais i alluogi pob aelod o staff a phob dysgwr i "fod yn bopeth y gallant fod."

Fodd bynnag, rydym yn byw mewn cyfnod heriol iawn ac rydym yn disgwyl yr heriau hyn i barhau dros gyfnod y Cynllun. Mae angen i ni fod yn hyblyg fel y gallwn ymateb i'r amgylchedd hwn. Felly, rydym wedi datblygu Cynllun Strategol symlach. Mae gostyngiadau mewn cyllid yn golygu bod angen i ni fod yn fwy pendant yn ein hymagwedd a sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol gyda swm mwy cyfyngedig o gyllid.

Rydym yn hyderus bod gan ein staff agwedd gadarnhaol a gwydnwch a fyddyn sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y gorau oddi wrthym yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Simon Pirotte
Pennaeth / Prif Weithredwr

Paul Croke
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

"Rydym yn tueddu i fyw i'n disgwyliadau"
Earl Nightingale

"Weithiau mae'n rhaid i chi greu yr hyn yr ydych eisiau bod yn rhan ohono"
Geri Weitzman

"Pa bynnag mor hardd yw'r strategaeth, dylech edrych o bryd i'w gilydd ar y canlyniadau"
Winston Churchill

AMDANOM NI

Mae Coleg Pen-y-bont yn Goleg Addysg (AB) sy'n cefnogi dros 13,000 o ddysgwyr ac yn cyflogi dros 700 o aelodau o staff. Mae'r Coleg yn gweithredu ar draws ei bum campws ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pen-coed, Heol y Frenhines, Maesteg a Chaerdydd, ynghyd â Engage Training, cyfarwyddiaeth fusnes allanol Coleg Pen-y-bont sydd wedi ei leoli yn Nhŷ Morien ar Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-Coleg. Mae Engage Training hefyd yn ymgorffori 'The People Business Wales' cwmni hyfforddi yn y sector preifat a brynwyd yn 2012.

Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau, o Lefel 1 hyd at lefel Gradd, mewn dros 20 o feysydd galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o'n darpariaeth cwrs yn cael ei gyflwyno ar gampysau Pen-y-bont a Phen-coed gyda Champws Heol y Frenhines yn Ganolfan Addysg Uwch a Maesteg yn gampws 'cymunedol' sy'n darparu cyrsiau yn ystod y dydd a chyda'r nos i drigolion lleol.

Yn ein Campws yng Nghaerdydd mae gennym Academi y Celfyddydau, lle mae dros 100 o fyfyrwyr yn astudio'r Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio a'r BA (Anrh) mewn Ymarfer Ffotograffig. Yn gynyddol mae'r Coleg yn darparu rhaglenni mwy hyblyg o astudio yn y gweithle ac ar-lein. Rydym hefyd yn darparu cyrsiau rhan amser mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y rhanbarth.

Mae'r dalgylch leol ar gyfer Coleg Penybont fel a ganlyn:

- Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg

Fodd bynnag yn gynyddol, mae'r Coleg yn denu myfyrwyr o gyn belled a →

- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Abertawe
- Castell-nedd Port Talbot

Mae Coleg Penybont yn gweithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o sefydliadau er mwyn diwallu anghenion addysgol y gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys busnesau lleol, darpariaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar gyfer Dysgu Oedolionyn y Gymuned (DOG) ac Ysgolion Uwchradd lleol ar gyfer y Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae'r Coleg hefyd wedi sefydlu partneriaethau llwyddiannus iawn gyda dwy brifysgol leol ac yn awr yn rhedeg y nifer fwyaf o gyrsiau Addysg Uwch mewn unrhyw Goleg Addysg Bellach yng Nghymru, gyda dros 1000 o fyfyrwyr sy'n dewis cwblhau eu cwrs Addysg Uwch yn lleol yn y Coleg bob blwyddyn.

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr boblogaeth o 134,545 ac mae 13,103 (9.7%) ohonunt yn siarad Cymraeg (ffynhonnell Cyfrifiad 2011).

"Symlrwydd yw'r soffistigeiddrwydd eithaf"
Leonardo da Vinci

Bridgend College
Coleg Penybont

Be all that you can be.

people centred

Inspirational Passionate Innovative

Byddwch yn bopeth y gallwch fod.

canolbwyntio ar bobl

Ysbrydoli Angerddol Arloesol

GYRRWYR

1.Rhagoriaeth

Mae ein staff a'n dysgwyr wedi dweud eu bod am ragoriaeth. Gwasanaeth ardderchog a darpariaeth ragorol. Maent am i ni ganolbwyntio ar ddiwylliant o welliant parhaus gyda "her uchel a chymorth uchel" ar gyfer yr holl staff a dysgwyr.

2.Partneriaethau

Rydym yn byw mewn cyfnod heriol. Mae angen i ni wneud y mwyaf o effaith pob un ceiniog ar brofiad y dysgwr yng Ngholeg Pen-y-bont. Mae angen inni hefyd edrych yn allanol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n wynebu eu heriau eu hunain. Drwy gyd-weithio, a meddwl tymor hir, gallwn ddod yn fwy effeithlon, yn fwy effeithiol ac yn fwy gwydn a chael effeithiau cynaliadwy. Mae angen i Goleg Pen-y-bont fod yn sefydlog yn ariannol yn yr amgylchedd hwn fel y gallwn barhau i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i bobl yn y rhanbarth.

3.Globaleiddio

Mae angen i ni feddwl ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Mae Cymru yn genedl fach gyda phoblogaeth o tua 3 miliwn. Er mwyn i'n gwlad "gystadlu'n effeithiol", mae angen i ni ymateb i anghenion mewn amgylchedd cynyddol cystadleuol a hefyd ymateb i ddatblygiad yr economïau sy'n datblygu.

4.Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir o ran ei flaenoriaethau. Mae Llythyr y Gweinidog yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y sector addysg bellach:

- Mynd i'r afael â thlodi
- Llythrennedd a Rhifedd
- Dilyniant a chefnogaeth i Ddysgwyr
- Ymgysylltu â Chyflogwyr a Menter
- Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

5.Estyn

Mae'r Fframwaith Arolygu Estyn yn newid a bydd angen i ni ymateb i'w blaenoriaethau sydd wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae ein cyfraddau cwblhau llwyddiannus yn hynod bwysig.

> "Mae'r gallu i symleiddio yn golygu cael gwared ar y diangen fel y bod llais gan yr hyn sy'n angenrheidiol"
>
> Hans Hofmann



Y 3 Elfen

Bod yn gatalydd ar gyfer Adfywio Economaidd fel sefydliad cynhwysol a datblygu sgiliau ein dysgwyr ar gyfer cyflogaeth a dinasyddiaeth. Coleg Pen-y-bont yw'r darparwr o ddewis, gan alluogi pob dysgwr i gyrraedd eu potensial drwy ddarpariaeth o ansawdd uchel. Mae Coleg Pen-y-bont yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i wella effeithlonrwydd yn y tymor hir, cyfleoedd a chanlyniadau i bobl Pen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt.